Cofnodion cyfarfod 16 Mai 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Gruff John	
Iestyn Harris	Aled Emyr	
Nerys John	Mair Bebb Jones	
Sarah Riley	Mei Gwilym	
Casi Roberts	Eifion Williams	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Williams. **Ymddiheuriadau**: Peter Simpson. Cafwyd dau lythyr oddi wrth dau berson cymwys ar gyfer y seddi gwag. Cafodd y ddau eu cyfethol i'r Cyngor. Estynnwyd croeso I Mei Gwilym ac Eifion Williams. Rhoddodd y Cadeirydd eglurhad i'r aelodau ynglŷn â sut oedd am i'r cyfarfodydd redeg yn y dyfodol. Dywedodd roedd materion yn codi a gohebiaeth yn cael eu trafod o fewn eitemau perthnasol. Byddai adroddiad y Cynghorydd Sirol yn ysgrifenedig ond byddai yn rhannu gwybodaeth berthnasol a'r eitemau o dan y penawdau perthnasol ond os byddai materion gwahanol yn codi yna byddai'r rhain yn cael eu trafod yn uniongyrchol o dan y pennawd adroddiad y Cynghorydd Sir. Disgwylir bod yr aelodau wedi darllen dogfennau'r cyfarfod o flaen llaw. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn rhedeg yn esmwyth ac o fewn amser. Gobeithir bydd cyfarfodydd yn gallu cael eu cwblhau o fewn dwy awr.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig mis Ebrill.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Iestyn Harris eitem 8.2	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant mis Ebrill 2017 a derbyn yr adroddiad ariannol.	
4.2	Cyfeiriwyd at lythyr Archwiliad Cymru a chafwyd eglurhad gan y Swyddog Ariannol. Derbyniwyd y wybodaeth.	
4.3	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2016 - 31/03/2017 gan y Swyddog Ariannol. Cynigwyd ac eiliwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor. Arwyddwyd datganiad yn cadarnhau cyflawni gofynion trefniadau rheoli ariannol effeithiol.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	

5.1	Derbyniwyd cofnodion mis Ebrill 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Gobeithir bydd materion y Neuadd yn cael ei drafod gan yr is-bwyllgor yn rheolaidd ac adroddiad yn unig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor am gadarnhau neu benderfyniad.	
6.2	Nid yw gwaith cynnal ar y to wedi ei gwblhau hyd yma oherwydd nid oes modd gwneud hynny heb sgaffald. Cyflwynwyd pris o £2,400.00 + TAW am y cyfarpar. Fel arfer mae rheolau'r cyngor yn nodi bod angen 3 pris ar gyfer unrhyw waith dros £500 ond yn yr achos hwn fe benderfynwyd derbyn y pris gan fod yr achos yn sefyllfa eithriadol. **Y Clerc i holi'r cwmni yswiriant ynglŷn ag oes modd gwneud cais pellach.**	**CLERC**
6.3	Adroddiad Peter Wray - gwaith ar dalcen ochr y môr. Gwaith rhoi silicone yn y man graciau a phaentio a phaent selio. Mae dyfynbris wedi ei dderbyn £1061.43 + TAW. Penderfynwyd oherwydd bod y sgaffald yn ei le gan yr adeiladwr presennol i symud ymlaen i wneud y gwaith gyda'r dyfynbris.	**DW**
6.4	Mae Peter Wray wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â'r "Dry Rot" ac wedi gofyn am bris i wneud adroddiad gan arbenigwr.	
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Mae ceisiadau bellach wedi eu hanfon at Cadw a War Memorials	
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C17/0343/20/LL- Uned profi MOT. Arfaethedig - Modurdy Felinheli, Bonc, Tan y Maes, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4UQ - **DIM GWRTHWYNEBIAD.**	
8.2	C17/0390/20/LL - Estyniad ochr i greu llawr cyntaf - 85 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, LL56 4PE **- DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
	Cafwyd adroddiad am niwed oedd wedi digwydd i garreg fedd, ar gyfer eglurhad roedd y Cadeirydd wedi paratoi lluniau. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd nad oedd y Cyngor yn gyfrifol a chyfeiriwyd at reolau'r Fynwent, **Y Clerc i anfon eglurhad ymlaen.**	**CLERC**
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Mae problem yn y maes parcio wedi bodoli ers amser. Cyflwynwyd y Cadeirydd gyflwyniad o'r mesuriadau arfaethedig ar gyfer goresgyn y rhain. Gobeithir rhoi cyflwyniad i drigolion y stryd fawr sydd yn defnyddio'r maes parcio a	**DW**

	hefyd hysbysu'r cynlluniau wythnos Gwyl y Felin. Tra bydd y gwaith yn cael ei gwneud bydd angen i'r trigolion symud y cerbydau oddi ar y safle.	
10.2	Lon Las - trafodwyd oes oedd modd plannu blodau'r ddol ar hyd y llwybr. **Y Clerc i wneud ymholiadau.**	**CLERC**
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod ar ddeall bod prisiau tender am y gwaith i lwybr Afon Heulyn yn ei holau a disgwylir bod y gwaith yn cael ei wneud ym Mehefin a bydd yn parhau am oddeutu 3 wythnos. Disgwylir bydd y llwybr yn cael ei agor cyn bod y wal yn cael eu hadeiladu.	
11.2	Mae pryder ynglŷn â chyflwr llwybrau linc Brynffynnon i Lon Llwyn i Ryd y Fenai. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.**	**CLERC**
11.3	Rhoddwyd wybodaeth I'r Cyngor nad oedd llwybr o'r Traeth i August Place yn perthyn i Gyngor Gwynedd ond roeddynt am edrych i fewn i'r honiad bod Cyngor Caernarfon wedi ei drwsio yn y gorffennol.	
11.4	Derbyniwyd gwybodaeth bod y llybr linc o Tai Gwelfor i'r Wern angen sylw oherwydd gordyfiant – Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd.	**CLERC**
11.5	Penderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith o gyflwyno safle bws yn Aberpwll..	
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Mae arwyddion cyfyngiad cyflymdra am Lon Llwyn wedi ei guddio gan gôr dyfiant. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.**	**CLERC**
12.2	Cafwyd adroddiad gan y Cyngor Sir bod wal gynnal Ffordd Gaernarfon yn ddiogel. Er hynny roedd y Cyngor eisiau cadarnhad bod hyn yn cynnwys yr 20 m o'r polyn golau stryd tuag at Gaernarfon. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.**	**CLERC**
12.3	Eglurwyd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd bod y Mannau pasio ar Lon Bethel yn unol â beth oedd wedi ei benderfynu â Watkin Jones ac nad oedd modd cadarnhau bod y mannau eraill lle mae niwed i ymylon y ffordd wedi digwydd oherwydd gwaith adeiladu Watkin Jones. **Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am ddatganiad a datgelu beth gafwyd ei benderfynu yn y cyfarfod safle**.	**CLERC**
12.4	Cafwyd gwybodaeth bod tyllau ar Ffordd Llwyn	

	bellach wedi eu llenwi.	
12.5	Derbyniwyd gwybodaeth bod gully rhwng Aberpwll a Nant y Garth angen sylw'r Cyngor Sir – Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor.	**CLERC**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Dim i'w adrodd	
15.0	**GWEFAN**	
15.1	Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer symud ymlaen a'r gwaith	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:15	
Llofnod:		Dyddiad: